

# DATGANIAD DYLUNIO A MYNEDIAD

DATBLYGIAD TAI

CHWILOG, PWLLHELI

CYHOEDDIAD CYNTAF

AWST 2025

AINSLEY GOMMON ARCHITECTS

## CYFEIRIADUR Y PROSIECT

Williams Homes (Bala) Ltd
18 / 19 Parc Menter,
Y Bala,
Gwynedd,
LL23 7NL

Cyswllt: Tony Hughes, Rheolwr Gyfarwyddwr
E: tony@williams-homes.co.uk

Grŵp Cynefin
Tŷ Silyn,
Penygroes,
Caernarfon,
LL54 6LY

Cyswllt: Alan Southall, Swyddog Datblygu (Prynu Tir a Thai)
Development Officer (Land and Property Purchase),
E: Alan.Southall@grwpcynefin.org

Ainsley Gommon Architects
Yr Hen Orsaf Heddlu,
15 Glynne Way,
Penarlâg,
CH5 3NS

Cyswllt: Simon Venables, Cyfarwyddwr
E: svenables@agarchitects.co.uk

## CYNNWYS:


| | | Tudalen: |
|---|---|---|
| 1.00 | CEFNDIR Y CYNNIG | 4 |
| 2.00 | CYD-DESTUN | 5 |
| 3.00 | FFACTORAY SY'N EFFEITHIO AR Y DATBLYGIAG | 9 |
| 4.00 | AMCANION DYLUNIO | 11 |
| 5.00 | CYMERIAD | 12 |
| 6.00 | CYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL | 14 |
| 7.00 | MYNEDIAD | 16 |
| 8.00 | SYMUD | 17 |
| 9.00 | DIOGELWCH CYMUNEDOL | 18 |
| 10.00 | YMGYNGHORI | 18 |


CYHOEDDIAD CYNTAF 14/08/2025

## 1.00 CEFNDIR Y CYNNIG

### 1.01 CYFLWYNIAD

Pentref yng Ngwynedd yw Chwilog sydd wedi'i leoli yn Llŷn, yn agos i Bwllheli a Chricieth. Mae'r B4354 yn rhedeg trwy Chwilog ac mae'n hygyrch o Fangor ar hyd yr A487. Mae'r cynnig ar gyfer safle maes glas ar gyrion y pentref, sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth ar hyn o bryd. Mae adeilad cyfnewidfa ffôn gyda mast y tu allan wrth ymyl cornel ogledd-ddwyreiniol y safle.

Mae Grŵp Cynefin wedi nodi'r angen am gartrefi newydd yn Chwilog. Mae'r rhan fwyaf o'r safle eisoes wedi'i ddyrannu ar gyfer tai ac mae'r datblygiad yn cael ei gefnogi â grant tai gan Lywodraeth Cymru. Mae Grŵp Cynefin, Williams Homes a Chyngor Gwynedd yn cydweithio i ddarparu cartrefi fforddiadwy newydd yn Chwilog.

Mae'r cymysgedd tai yn adlewyrchu canlyniadau'r ddeialog a gafwyd, ac mae'r datblygiad arfaethedig yn ymateb i'r gyfradd anghenion tai lleol a baratowyd gan Grŵp Cynefin mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Lleol. Bydd y datblygiad yn cael ei adeiladu yn ôl Safonau Cartrefi Gydol Oes, Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru ac egwyddorion Aur Diogelu Drwy Ddylunio.

Mae'r Datganiad Dylunio a Mynediad hwn yn cyd-fynd â'r Cais Mawr am Gydsyniad Cynllunio Llawn ar y cyd â'r lluniadau'r cais cynllunio ac adroddiadau a baratowyd gan Ainsley Gommon Architects, Cadnant Planning ac ymgynghorwyr eraill ar gyfer y datblygiad arfaethedig.

### 1.02 DATGANIAD O WELEDIGAETH

Mae'r datblygiad arfaethedig yn cael ei yrru gan yr awydd i ddarparu cartrefi newydd o safon wedi'u dylunio'n dda i bobl leol ar gyfer rhent fforddiadwy mewn lleoliad lled-wledig wedi'u hadeiladu gan ddefnyddio dulliau adeiladu modern a fydd yn gwella effeithlonrwydd ynni a chysur i'r trigolion, tra hefyd yn helpu i leihau ôl troed carbon cyffredinol y datblygiad. Mae'r cymysgedd tai arfaethedig yn cynnwys: 6 fflat 2 berson 1 ystafell wely, 2 fyngalo 3 pherson 2 ystafell wely, 9 tŷ 4 person 2 ystafell wely ac 8 tŷ 5 person 3 ystafell wely, sy'n gyfanswm o 25 uned.

Mae'r dyluniad yn ceisio gwneud y defnydd gorau o nodweddion mwyaf cadarnhaol y safle, ei agwedd agored a heulog, amwynder gweledol a lleoliad hygyrch ar gyrion y Pentref wrth ymyl ardal breswyl sefydledig. Bydd pob cartref newydd yn cael ei drefnu i wneud y mwyaf o wyliadwriaeth naturiol o fannau cyhoeddus a lled-gyhoeddus a golygon cyfagos, tra'n manteisio ar dopograffeg lethrog ysgafn a golygfeydd y safle.

Mae'r dyluniad wedi'i ystyried yn ofalus i greu effaith gadarnhaol a ffryntiad amrywiol sy'n darparu diddordeb a hunaniaeth weledol, gydag ymdeimlad amlwg o le yn cael ei ddarparu drwy gadw gwrychoedd brodorol a chyflwyno gwaith plannu newydd sy'n cynnig cyfleoedd i wella bioamrywiaeth. Mae gofod amwynder a fyddai'n cael ei greu tua chornel dde-ddwyreiniol y safle yn darparu man gwyrdd ar gyfer y datblygiad. Bydd gerddi preifat ymarferol yn cael eu darparu i bob preswylfa gyda lle parcio, coed newydd a thirlunio i'r gerddi blaen ynghyd â phlannu rhwystrau i ddarparu gofod darllenadwy ac ymdeimlad o le gyda gofod amddiffynadwy i'r preswylwyr.








**Delwedd 01** - Ffotograff o ffryntiad gogledd-ddwyreiniol y safle, ar hyd y ffordd i'r gogledd, B4354.

**Delwedd 02** - Ffotograff o ffryntiad gogledd-orllewinol y safle, ar hyd y ffordd i'r gogledd, B4354.

01

01






Mynwent Rhydd Chwilog

Capel Siloh

Maes Chwarae

Ysgol Gynradd Chwilog

Tafarn Lleol - Y Madryn

Capel Uchaf

## 2.00 CYD-DESTUN

### 2.01 LLEOLIAD

Mae'r cynllun wedi'i leoli ar ymyl gorllewinol Chwilog, pentref bychan 5.4 milltir i'r dwyrain o Bwllheli wedi'i chysylltu gan yr A497, ac ugain milltir i'r de o Gaernarfon, wedi'i gysylltu gan yr A487 ac yn agos at Barc Cenedlaethol Eryri.

Tua 0.754 hectar o arwynebedd. Ar hyn o bryd mae'r safle yn laswelltir agored, gydag ardaloedd bach o lwyni ac ychydig o goed sefydledig ar y ffin ddeheuol. Mae wedi'i leoli mewn rhan lled-wledig o Chwilog wrth ymyl ychydig o dai, datblygiadau preswyl a chaeau amaethyddol cyfagos.

Mae'r safle wedi'i ffinio gan gae yn y cefn a ffermdy presennol i'r gorllewin. Mae datblygiadau preswyl sefydledig, Tŷ'n Rhos a Chae Capel wedi'u lleoli i'r gogledd ac i'r dwyrain. Mae dwysedd y ffabrig adeiledig yn gwasgaru'n gyflym i gaeau agored a llinellau o goed.

Mae'r safle yn cael ei wasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus gydag arosfannau bysiau wedi'u lleoli ar hyd prif ffordd y B4354, gydag un 130 llath o safle'r datblygiad sy'n darparu gwasanaethau rheolaidd. Mae gorsaf reilffordd Penychain 1.6 milltir i ffwrdd, sydd â chysylltiadau i Bwllheli, Abermaw a'r Amwythig.

### 2.02 POLISI CYNLLUNIO CYMRU

Mae'r Datganiad Dylunio a Mynediad hwn yn esbonio'r dull o greu datblygiad cynaliadwy drwy ddylunio da yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i estheteg i gynnwys agweddau cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd ac agweddau eraill ar y datblygiad tra'n darparu dyluniad cydlynol sy'n addas ar gyfer ei leoliad yn y pentref.

Nod y Datganiad hwn hefyd yw esbonio sut mae'r egwyddorion Dylunio Cynhwysol y cyfeirir atynt ym Mholisi Cynllunio Cymru wedi'u hymgorffori i greu datblygiad a fydd yn hygyrch, yn darparu hyblygrwydd o ran ei ddefnydd, ac amgylchedd sy'n gyfleus ac yn bleserus i'w ddefnyddio i'r trigolion tra'n cyd-fynd yn dda â'r dopograffeg genedlaethol.

### 2.03 TAN 12 - DYLUNIO

Mae'r datblygiad wedi'i ddylunio yn unol ag egwyddorion Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12 - Dylunio.

Mae'r cynllun yn adlewyrchu polisi cynllunio Gwynedd a Pholisi Cynllunio Cymru ac mae ymgynghorwyr cynllunio Cadnant wedi darparu Datganiad Cynllunio ar wahân.

MAE POLISI CYNLLUNIO CYMRU 3.39 yn nodi:
*'Mae'r cyfleoedd ar gyfer lleihau'r defnydd o geir a chynyddu'r defnydd o gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn fwy cyfyngedig yn y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig o'u cymharu ag ardaloedd trefol. Mewn ardaloedd gwledig dylid lleoli'r mwyafrif o ddatblygiadau newydd yn yr aneddiadau y gellir eu cyrraedd yn gymharol dda drwy ddulliau di-gar o'u cymharu â'r ardal wledig yn gyffredinol. Dylai datblygiad yn yr ardaloedd hyn barhau i fabwysiadu canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy a chynnig cysylltiadau teithio llesol da i ganol aneddiadau i leihau'r angen i deithio mewn car ar gyfer teithiau lleol.'*

01

02

**Delwedd 01** - Map yn dangos perthynas Chwilog â'r A497

**Delwedd 02** - Ffotograff presennol o'r safle o'r awyr wedi'i amlinellu mewn coch.

*POLISI PCYFF 2: Mae'r MEINI PRAWF DATBLYGU yn nodi:*
*'Dylai cynigion: 3. Gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir, gan gynnwys cyflawni dwysedd o a o leiaf 30 o unedau tai fesul hectar ar gyfer datblygiad preswyl (oni bai bod amgylchiadau lleol neu gyfyngiadau safle sy'n pennu dwysedd is); 4. Darparu gofod amwynder priodol i wasanaethu preswylwyr presennol a'r dyfodol; 5. Cynnwys darpariaeth ar gyfer storio, ailgylchu a rheoli gwastraff yn ystod y cyfnod adeiladu a'r cyfnod meddiannaeth; 6. Cynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, ddarpariaeth ar gyfer rheoli a gwaredu rhywogaethau goresgynnol yn briodol;'*

*POLISI PCYFF 3: Mae DYLUNIO A SIAPIO LLEOEDD yn nodi:*
*'Bydd disgwyl i bob cynnig ddangos dyluniad o ansawdd uchel sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r cyd-destun amgylcheddol naturiol, hanesyddol ac adeiledig ac yn cyfrannu at greu lleoedd deniadol, cynaliadwy. Bydd dylunio arloesol ac ynni-effeithlon yn cael ei annog yn arbennig.'*


Mae rhan o'r safle yn Chwilog wedi'i ddyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol. Ystyrir ei fod yn addas iawn ac wedi'i leoli'n dda ar gyfer tai fforddiadwy i ymateb i anghenion tai lleol, gan ddarparu cartrefi newydd (dwy, tair a phedair ystafell wely) ar gyfer ystod eang o grwpiau oedran, teuluoedd a phreswylwyr hŷn gyda digon o le amwynder.


2.04 TAN-18 – TRAFNIDIAETH:
Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod datblygiadau newydd yn cynnwys darpariaeth briodol ar gyfer cerddwyr (gan gynnwys y rhai â gofynion mynediad a symudedd arbennig), seiclo, trafnidiaeth gyhoeddus, a rheoli traffig a pharcio/gwasanaethu.

Oherwydd ei leoliad ar gyrion Chwilog, bydd y datblygiad yn helpu i hwyluso mynediad trwy ddarparu cysylltiadau agos â thrafnidiaeth gyhoeddus, a gwella'r cysylltiad i gerddwyr a a chysylltiad beicio â'r siopau a'r amwynderau lleol.

Darperir digon o fannau parcio a gellir ymdrin â hyn o fewn y safle. Mae cynllun y stryd yn lliniaru rhag parcio amhriodol a rhwystro mynediad i gerddwyr a mynediad brys

Trowch at y Datganiad Trafnidiaeth a luniwyd gan SCP i gael rhagor o wybodaeth.




## 2.00 - CYD-DESTUN

DATBLYGIAD TAI

CHWILOG, PWLLHELI

AINSLEY GOMMON ARCHITECTS

**Delwedd 01** - Map yn dangos perthynas Chwilog â'r A497

**Delwedd 03** - Ffotograff presennol o'r safle o'r awyr wedi'i amlinellu mewn coch.

01

02

## 2.00 CYD-DESTUN

### 2.04 FFOTOGRAFFAU'R SAFLE



Golygfa ar hyd y B4354 gyda'r safle ar y chwith, y tu hwnt i adeliad presennol y gyfnewidfa ffôn.



Golygfa o'r ffin flaen ogleddol o'r tu mewn i'r safle, gyda'r clawdd a'r gerych presennol ac ati.



Ffos bresennol yng nghefn y safle ar hyd y ffin ddeheuol.



Mynedfa bresennol y ffermdy i'r gogledd-orllewin o'r safle.




Golygfa ar hyd y B4354, o'r dyrain i'r gorllewin.



Golygfa o'r safle presennol.

## 2.00 CYD-DESTUN

### 2.05 CYD-DESTUN LLEOL

Pentref yng Ngwynedd, yng ngogledd Cymru, yw Chwilog, ac mae wedi'i leoli yn Llŷn.  Mae'r pentref llinol wedi'i adeiladu o amgylch y B4354 a arferai fod yn dollffordd ac sy'n croesi'r penrhyn i Borthdinllaen. Mae Afon Wen yn llifo trwy ran isaf y pentref tua'r môr, lai nag 1 filltir i ffwrdd. Mae'r dref yn gartref i'r Lôn Goed, 7 milltir o lwybr a grëwyd yn y 18fed ganrif ar gyfer cludo calch, glo a mawn o'r arfordir i ffermydd ucheldirol gan gynnwys Plas Hen yn lleol. Nid yw'r trac yn cael ei ddefnyddio at y diben hwn mwyach ond mae bellach yn boblogaidd ymhlith cerddwyr. Yn 2021, roedd gan gymuned Llanustumdwy, sydd ag arwynebedd o 60 km sgwâr ac sy'n cynnwys Chwilog, boblogaeth o 1917.

1. Tai gyferbyn â phen gogleddol y ar hyd y B4354.
2. Adeilad cyfnewidfa ffôn presennol i'r dwyrain o'r safle.
3. Caeau i'r de o'r safle.
4. Ffermdy, tai allan ac ysguboriau presennol i'r gorllewin o'r safle.
5. Mae anheddau wedi'u rendro â chast garw gwyn a ffasadau wedi'u chwipio â gro yn dominyddu'r arddull leol.
6. Mae'r dref yn gartref i'r Lôn Goed, sef 7 milltir o lwybr coediog a grëwyd yn y 18fed ganrif.
7. Mae rhai adeiladau yn y dref wedi'u gorffen â cherrig yn y prif weddau.

























MÔR - PARTH LLIFOGYDD 3

MÔR - PARTH LLIFOGYDD 2

AFONYDD - PARTH LLIFOGYDD 3

AFONYDD - PARTH LLIFOGYDD 2

DŴR WYNEB - PARTH LLIFOGYDD 3

DŴR WYNEB - PARTH LLIFOGYDD 2

N

01

**Delwedd 01** - Delwedd o Fap Llifogydd ar gyfer Cynllunio (Cyfoeth Naturiol Cymru) sy'n dangos risg llifogydd wrth i'r hinsawdd newid

## 3.00 FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y DATBLYGIAD

### 3.01 LLIFOGYDD

Mae Mapiau Risg Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadarnhau nad yw'r safle yn dangos unrhyw risg o lifogydd o'r môr nac afonydd, na photensial llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach.

### 3.02 CYFLWR PRESENNOL Y TIR

Bydd ymchwiliad tir ac adroddiadau peiriannydd yn cael eu cynnal ar y safle a bydd y wybodaeth hon ar gael i'r Cyngor.

### 3.03 ARCHAEOLEG

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddarganfyddiadau archaeolegol sydd wedi'u gwneud yn yr ardal hon ac nid ydym yn ymwybodol o unrhyw safleoedd sylweddol o ddiddordeb hanesyddol gerllaw a fyddai'n cyfiawnhau unrhyw ymchwiliad i'r safle.

### 3.04 GWASANAETHAU PRESENNOL

Ceisiwyd yr holl chwiliadau cyfleustodau gwasanaeth ar gyfer y cynllun gan gynnwys trydan, nwy, dŵr gwastraff / prif gyflenwad a thelathrebu BT. Mae'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn dangos bod gwasanaethau prif gyflenwad dŵr ar gael ac yn cael eu darparu i'r safle ar hyd ffin ogleddol y safle, ac yn croesi'r safle o'r gogledd i'r de, ar ochr ddwyreiniol y safle. Mae system ddraenio dŵr budr a thrydan presennol yn rhedeg trwy'r safle. Gall y rhain gael eu dargyfeirio a gellir darparu ar eu cyfer o fewn cwmpas datblygiad newydd lle bo angen.

Trowch at adroddiadau Peirianwyr a ddarperir gyda'r cais hwn.

### 3.05 TREFTADAETH AC ADEILADAU RHESTREDIG

Nid oes unrhyw adeiladau rhestredig yn agos at y safle. Fodd bynnag, mae 4 adeilad rhestredig yng nghanol y pentref. Serch hynny, nid ydynt yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y datblygiad ar y safle hwn.

## 3.00 FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y DATBLYGIAD

### 3.01 CYFYNGIADAU'R SAFLE

Mae'r safle ei hun (diagram ar y dde) yn cynnwys glaswelltir, gydag ardaloedd bach o brysgwydd a llystyfiant wedi gordyfu ar y ffiniau. Mae clawdd ar du blaen y safle ac mae'r B4354 yn rhedeg ar hyd y ffin ogleddol (1). Mae cyfnewidfa ffôn a mast ac ystâd o dai (2) i'w gweld ar ffin ddwyreiniol y safle. Mae tir bugeiliol agored (3) yn amlinellu'r ffin ddeheuol. Mae ffos bresennol yn rhedeg ar hyd y ffin ddeheuol (4). Mae ffermdy presennol wedi'i leoli i'r gorllewin o'r safle (5). Mae'r safle yn gymharol wastad gyda llethr bach yn mynd i lawr o'r gogledd-orllewin i'r de-ddwyrain gyda'r pwynt isaf yng nghornel isaf y de-ddwyrain. Mae prif gyflenwad dŵr yn torri trwy'r safle (6). Mae tai presennol ar ochr ogleddol y B4354 yn edrych dros y safle (7). Mae'r safle yn cynnig golygfeydd godidog tuag at gefn gwlad agored i'r de (8).










## 3.00 - FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y DATBLYGIAD

DATBLYGIAD TAI

CHWILOG, PWLLHELI

AG|A AINSLEY GOMMON ARCHITECTS

**Delwedd 01** Cynllun Mynediad a Symud

**Delwedd 02** Cynllun Cyfleoedd a Chyfyngiadau

**Delwedd 03** Trychiad o'r safle sy'n dangos topograffeg sy'n goleddu'n ysgafn o'i ffin ogleddol (ar y chwith) tuag at y ffin ddeheuol (ar y dde).

| 01 | 02 |
| --- | --- |
| | 03 |




**ALLWEDD:**

- FFLAT 2 PERSON 1 GWELY / 2P1B FLAT
- BUNGALO 3 PERSON 2 WELY / 3P2B BUNGALOW
- TŶ 4 PERSON 2 WELY / 4P2B HOUSE
- TŶ 5 PERSON 3 GWELY / 5P3B HOUSE
- TŶ CORNEL 5 PERSON 3 GWELY / 5P3B CORNER HOUSE

## 4.00 AMCANION DYLUNIO

### 4.01 CYSYNIAD AC EGWYDDORION DYLUNIO

Mae'r datblygiad yn cynnwys 17 tŷ, 2 fyngalo, a 6 fflat i'w hadeiladu yn ôl Gofynion Ansawdd Dylunio Llywodraeth Cymru a Safonau Cartrefi Gydol Oes ar gyfer addasu cynllun tai yn y dyfodol ar safle tir glas, yn Chwilog.

Mae'r cynllun yn ystyried cymeriad lled-wledig y safle ar gyrion y pentref, gyda dwysedd isel o anheddau. Mae yna ffryntiadau cadarnhaol gyda gofod cyhoeddus hael ac mae'n hawdd mynd drwy'r safle.
Mae'r dyluniad yn ceisio gwneud y defnydd gorau o nodweddion mwyaf cadarnhaol y safle, ei agwedd agored a heulog, amwynder gweledol a lleoliad hygyrch wrth ymyl y stryd fawr ac amwynderau.

Darperir mynedfa i gerddwyr a man amwynder ac mae'r Plotiau 1-6 yn edrych drostynt. Trwy gadw'r holl goed aeddfed a phlannu coed a gwrychoedd ychwanegol, bydd y cynllun yn hybu bywyd gwyllt, tra'n darparu ymdeimlad o hunaniaeth a lle sy'n cyd-fynd â'i leoliad yn y pentref. Bydd y man amwynder yn gwella amwynder gweledol ardal sy'n gweithredu fel 'parc poced', gan wella bioamrywiaeth a chreu ymdeimlad o le i deuluoedd, i blant sy'n chwarae, i gael picnic, i gŵn ac i fywyd gwyllt ffynnu.

Mae creu llwybr troed newydd yn ei gwneud yn haws mynd drwy'r safle, gan gysylltu'r tai newydd â'r brif ffordd a darparu llwybr sy'n cysylltu'r datblygiad arfaethedig â chanol y pentref. Mae cynllun y safle yn cyfateb yn sensitif i dopograffeg y safle a gwasanaethau presennol y safle, yn benodol i'r prif gyflenwad dŵr presennol sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de i ran ddwyreiniol y safle. Bydd y gwrychoedd presennol a'r coed aeddfed i'r de yn cael eu cadw a bydd y clawdd yn cael ei adfer lle bo hynny'n bosibl. Mae hyn yn darparu ymyl gwyrdd deniadol i'r cynllun sy'n annog bywyd gwyllt a bioamrywiaeth, yn ogystal â chydymffurfio â rheoliadau SDCau.

Mae'r dyluniad wedi'i ystyried yn ofalus i greu ffryntiad cadarnhaol ac amrywiol, wedi'i orffen i raddau helaeth â rendrad gydag ardaloedd bach o nodweddion cerrig a phren i ychwanegu diddordeb a darparu triniaeth gadarn sy'n cyd-fynd â'r arddull leol ac mae pob cartref wedi'i drefnu i wneud y mwyaf o wyliadwriaeth naturiol o fannau cyhoeddus a lled-gyhoeddus a'r llwybrau cyfagos tuag atynt. Mae cyfeiriadedd y cartrefi wedi'i ystyried yn ofalus, gydag ystafelloedd byw wedi'u cyfeirio i'r de, y dwyrain neu'r gorllewin, lle bynnag y bo modd, i elwa ynni haul goddefol. Nod y cynllun yw gwneud y mwyaf o fanteision golau naturiol, gan leihau'r angen am oleuadau artiffisial.

Bydd gerddi preifat diogel y gellir eu rheoli, gyda gatiau y gellir eu cloi, wedi'u hamgáu gan driniaethau ffiniau a fydd yn sicrhau nad oes golygon dros eiddo preifat, a mannau parcio yn unol â gofynion Aur 'Diogelu drwy Ddylunio', yn cael eu darparu i bob preswylfa. Bydd tramwyfeydd hygyrch wedi'u hategu gan waith plannu a phalmentydd wedi'u dewis yn ofalus i ddarparu diffiniad clir, yn darparu gofod darllenadwy ac ymdeimlad o le gyda gofod amddiffynadwy i'r preswylwyr.

### 4.02 NIFEROEDD

Mae'r datblygiad yn cynnig y canlynol:

- 6 fflat 2 berson 1 ystafell wely gydag 1 lle parcio yr un.
- 2 fyngalo 3 pherson 2 ystafell wely gyda 2 le parcio yr un
- 9 tŷ 4 person 2 ystafell wely gyda 2 le parcio yr un
- 7 tŷ 5 person 3 ystafell wely gyda 2 le parcio yr un
- 1 tŷ mynediad ochr 5 person 3 ystafell wely gyda 2 le parcio yr un
- Mannau parcio i ymwelwyr

01

02

**Delwedd 01** - Cynllun Arfaethedig y Safle

**Delwedd 02** - Cymysgedd Tai

## 5.00 CYMERIAD

### 5.01 CYNLLUN A DYLUNIO TIRWEDD

Mae trefniant yr anheddau o fewn y cynllun yn adlewyrchu ymagwedd ystyriol tuag at gyflwr a chyd-destun y safle. Mae'r datblygiad yn cyflwyno tai modern gyda gofodau o'r safonau uchaf safonau i ddiwallu anghenion lleol. Bydd gofod amwynder cyhoeddus newydd yn cael ei ddarparu a bydd gwaith plannu newydd yn cynyddu bioamrywiaeth ac ecoleg y safle. Bydd y safle yn cael ei wella drwy blannu ar gyfer bywyd gwyllt. Bydd gwaith plannu hawdd ei gadw mewn gerddi ochr a blaen yn cynnwys llwyni a gwrychoedd wedi'u plannu fel rhwystr i gefnogi bywyd gwyllt. Bydd trefniant arfaethedig yr anheddau ar y safle yn cynnig haul bore, hanner dydd a phrynhawn i'r gerddi preifat yn dibynnu ar y cyfeiriad y maen nhw'n ei wynebu. Bydd gan bob eiddo fannau parcio cysylltiedig gyda mynediad gwastad er mwyn cydymffurfio â Chartrefi Gydol Oes.

Mae ffryntiad stryd cadarnhaol wedi'i greu ar hyd y B4354 a'r ffordd fynediad arfaethedig o fewn y safle, sydd wedi'i chynllunio i safonau mabwysiadwy. Mae eiddo thalcenni cerrig tuag at ffryntiad y ffordd yn darparu diddordeb gweledol yn ogystal â diogelwch ychwanegol trwy olygon. Bydd y mathau o dai, elfennau gweledol cryf a gwaith plannu ar yr ymylon yn creu strydlun dymunol ac amrywiol gyda ffiniau clir i'r plotiau.
Bydd gan y gerddi cefn preifat ffensys 'bob yn ail' 1.8 metr o uchder i wella diogelwch a bydd y coed aeddfed, y gwrychoedd a'r clawdd presennol, wedi'u hategu â gwaith plannu newydd, yn helpu i leihau effaith gwaith datblygu newydd.


### 5.02 MAINT

Mae'r datblygiad arfaethedig ar raddfa breswyl, gan ddarparu byngalos unllawr ac anheddau deulawr, gyda gweddau a llinellau to wedi'u darwahanu i helpu i greu diddordeb, hunaniaeth ac amrywiaeth bensaernïol.

Mae'r cymysgedd tai arfaethedig o 25 o anheddau yn cynnwys:
- 6 fflat 2 berson 1 ystafell wely
- 2 fyngalo 3 pherson 2 ystafell wely
- 9 tŷ 4 person 2 ystafell wely
- 7 tŷ 5 person 3 ystafell wely
- 1 tŷ mynediad ochr 5 person 3 ystafell wely

Bwriad trefniant yr anheddau hyn yw mynd i'r afael yn sensitif ag amodau amrywiol y safle. Mae talcenni a gweddau amrywiol yn helpu i fynegi ffryntiad y stryd ac edrych dros fannau cyffredin, tra'n darparu ffryntiadau cadarnhaol. Mae'r llwybr troed newydd i'r safle oddi ar y B4354 wedi'i leoli'n agos at y man amwynder a chanol y pentref gan ei gwneud yn hawdd i ddarpar drigolion ac ymwelwyr y safle fynd i mewn i'r safle. Mae triniaethau'r gweddau wedi'u dylunio i fod yn ystyriol o'r eiddo preswyl yn y pentref cyfagos, gan greu diddordeb ac amrywiaeth tra'n ategu'r adeiladau cyfagos. Mae'r datblygiad yn adlewyrchu teipolegau presennol yn y pentref er mwyn creu cyn lleied â phosibl o effaith ar leoliad y pentref a darparu cydlyniant gweledol.






CYNLLUN LLAWR GWAELOD



GWEDD FLAEN



GWEDD OCHR



**Delwedd 01** - Golwg 3D gyda mynediad y safle yn y blaendir a gofod amwynder yn y cefndir

**Delwedd 02** - Cynllun llawr a gweddluniau byngalo 3 pherson 2 ystafell wely nodweddiadol

01

02





### 5.04 MANNAU ALLANOL

Mae cynllun y datblygiad wedi'i ystyried yn ofalus er mwyn optimeiddio'r berthynas rhwng y cartrefi newydd a'u hamgylchoedd. Mae'r cartrefi newydd wedi'u dylunio i elwa o ynni haul goddefol a sicrhau lefelau da o olau naturiol yn y prif fannau byw. Yn ogystal, mae naill ai ystafelloedd byw neu ystafelloedd bwyta/cegin y tai yn agor i erddi preifat, gan ganiatáu i'r preswylwyr fwynhau'r man awyr agored a rhoi mynediad i ardaloedd sychu allanol. Mae gan bob tŷ erddi hael gydag ardaloedd wedi'u plannu yn y blaen yn edrych ar fannau cyhoeddus.

Mae gwaith plannu wedi'i ddarparu i fannau cyhoeddus a lled-gyhoeddus i wella'r bioamrywiaeth ar y safle yn ogystal â chreu diddordeb trwy gydol y flwyddyn. Darperir lle parcio oddi ar y ffordd ar gyfer pob eiddo gyda llwybrau mynediad gwastad i bob cartref.
I gael rhagor o wybodaeth am ardaloedd cyhoeddus y cynllun, trowch at 4.01, Cysyniad ac Egwyddorion Dylunio.

### 5.05 MYNEDIAD I'R SAFLE

Mae'r mynediad i'r safle wedi'i ystyried yn ofalus o ran diogelwch ar y priffyrdd a safonau mabwysiadu ac mae lleiniau gweledEdd digonol wedi'u darparu. Mae'r ffordd newydd oddi ar y B4354 yn 5.5m o led, gyda radiysau troi digonol a llwybrau troed 2m o led.

Mae pob man parcio ar gyfer y cynllun wedi'u darparu oddi ar y ffordd arfaethedig gyda nifer addas o leoedd fesul eiddo, er mwyn helpu i leihau'r angen i barcio ar y stryd ac mae rhagor o leoedd i ymwelwyr wedi'u gwasgaru ar draws y cynllun.

### 5.05 YMDDANGOSIAD

Mae gan bentref Chwilog a'r ardaloedd cyfagos gymeriad ac ymddangosiad lleol nodedig, ac mae adeiladau â rendrad a ffasadau o ro gyda thoeau llechi yn nodweddu arddull leol. Mae'r rhain yn amrywio o ran maint, ac mae byngalos ac anheddau deulawr i'w cael yn agos at y safle. Mae'r cerrig yn y prif weddau hefyd yn nodweddion lleol cyffredin.

Cynigir y bydd y datblygiad preswyl newydd yn cyd-fynd â'r cymeriad a'r materoldeb lleol nodweddiadol, gan gynnal ffurfiau to goleddf traddodiadol a ffenestri ar raddfa ddomestig tra'n darparu diddordeb pensaernïol trwy amrywiaeth oddi mewn i ffurfiau, deunyddiau a manylion yr adeiladau.

Y deunyddiau allanol arfaethedig (y bydd rhai ohonynt yn cael eu darparu i'w cymeradwyo) yw:

- Rendrad lled wyn.
- Nodweddion cerrig a phren mewn lleoliadau penodol i ychwanegu diddordeb.
- Llechi Cymreig neu deils llechi wedi'u hailffurfio ac sy'n cyd-gloi ar y toeau.
- Ffenestri gwydr dwbl UPVC gwyn effeithlon o ran ynni i ategu eiddo presennol.

01 **Delwedd 01** - Golygfa o'r awyr o ffryntiad y safle ar y ffin ogleddol

02 **Delwedd 02** - Golygfa o'r awyr o'r safle dros yr adeiladau fferm presennol i'r gorllewin

# 6.00 CYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL

**6.01 LLEOLIAD YN Y DIRWEDD / TREFLUN**
Mae'r safle wedi'i leoli o fewn pellter gyrru i amwynderau lleol ac mae ganddo gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da. Mae'n agos at Lwybr Beicio Cenedlaethol 8 sy'n rhedeg rhwng Caerdydd a Chaergybi (Ynys Môn) trwy Aberhonddu, Llanfair-ym-Muallt, Machynlleth, Porthmadog a Bangor.

O'r cychwyn cyntaf mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i ddylunio i weithio gyda'r safle a'i gyd-destun o ran tirwedd, ac mae'r awgrymiadau o ran maint a dwysedd yn deillio o grwpiau presennol o eiddo cyfagos wedi'u hymgorffori'n ofalus i ategu a gwella patrwm a ffurf bresennol yr ardal. Mae nodweddion tirwedd a thopograffeg y safle wedi dylanwadu ar yr atebion dylunio a fabwysiadwyd ac mae'r cynigion sy'n deillio o hynny, sy'n canolbwyntio ar ofod cyhoeddus cyffredin ac yn cynnwys gweddau wedi'u darwahanu, ymgasglu amrywiol a newidiadau o ran uchder yn creu cynllun sy'n rhoi amrywiaeth a diddordeb pensaernïol.

Mae'r cynllun yn ddomestig o ran maint ac ymddangosiad ac mae'r ymgasglu arfaethedig, y defnydd o ddeunyddiau a'r patrymau ffenestri rheolaidd yn cyfeirio at yr arddull frodorol ac yn ei hategu.

**6.02 BIOAMRYWIAETH A'R AMGYLCHEDD LLEOL**
Ar hyn o bryd, mae'r safle'n cynnwys glaswelltir agored, gydag ardaloedd o lwyni wedi gordyfu ar hyd y ffiniau. Ar hyd y ffin ddeheuol a dwyreiniol mae gwrych sefydledig a fydd yn cael ei gadw. Mae clawdd gyda llystyfiant wedi gordyfu wedi'i leoli ar ffin ogleddol y safle ar hyd y fynedfa flaen wrth y B4354. Bydd cadw'r wal gerrig a'r coed yn diogelu'r bioamrywiaeth a'r ecoleg bresennol. Os oes angen, bydd cynllun gwaredu planhigion estron goresgynnol, gan gynnwys creigafal y mur, ceirchen goch, rheonllys mawr Chile, a jac y neidiwr, yn cael ei gynnal os ceir unrhyw un ar y safle. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr Adroddiad Ecoleg sydd wedi'i gynnwys yn y Cais Cynllunio. Bydd hyn yn llywio'r cynigion tirwedd manwl a fydd yn cael eu darparu maes o law a'u cyflwyno i'w cymeradwyo.

Bydd y datblygiad newydd arfaethedig hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y fioamrywiaeth yn yr amgylchedd lleol trwy ddarparu ardaloedd newydd o waith plannu sy'n caniatáu creu cynefinoedd posibl a chyfleoedd bwydo. Yn ogystal â'r gerddi, mae'r cynllun yn cyflwyno nifer o goed a gwrychoedd newydd sy'n helpu i liniaru materion golygon, gan ddarparu mwy o breifatrwydd ac ymylon cryfach i ffiniau, a chynyddu bioamrywiaeth a gwyrddni'r safle.

Bydd gwaith plannu arfaethedig yn darparu ardaloedd ychwanegol o gynefin yn ogystal â lleihau'r risg o unrhyw lifogydd yn y dyfodol yn sgil y newid yn yr hinsawdd.

Mae cynllun tirwedd yn cael ei gaffael i wella'r amrywiaeth naturiol gan gynnwys plannu rhywogaethau brodorol o wrychoedd, coed a phlanhigion.









**Delwedd 01** - Golygfa o'r awyr gyda'r safle yn y blaendir

**Delwedd 02** - Golygfa o'r B4354

01

02

### 6.03 EFFEITHLONRWYDD YNNI / LLEIHAU CARBON

Nod y strategaeth gynaliadwyedd yw lleihau'r galw am ynni ac allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig, ac felly cyfyngu ar yr effaith ar yr amgylchedd. Mae cyfeiriadedd, micro-hinsawdd a ffurf adeiledig i gyd wedi cael eu hystyried i hybu ynni haul goddefol, golau naturiol ac amddiffyniad rhag y gwynt, a fydd i gyd yn cyfrannu at leihau'r galw am ynni.

Bydd y strategaethau canlynol yn cael eu defnyddio i leihau'r defnydd o ynni:

- Elfennau allanol (waliau, llawr, to, ffenestri a drysau) i fod â phriodweddau thermol uchel i leihau faint o wres sy'n cael ei golli
- Bydd systemau gwresogi a dŵr poeth ynni-effeithlon yn cael eu pennu o fewn yr unedau.
- Paneli ffotofoltäig i ddiwallu gofynion trydan yr eiddo
- Bydd ffitiadau golau ynni isel 100% yn cael eu defnyddio o fewn yr holl eiddo.
- Darperir ardaloedd sychu allanol i helpu i leihau'r defnydd o ynni
- Bydd offer domestig gradd 'A' yn cael eu pennu o fewn yr anheddau.




| Elfen | Lleoliad | Deunydd | Manyleb Amlinellol | Sgôr y Canllaw Gwyrdd |
|---|---|---|---|---|
| Waliau Allanol | Fel gweddau | Rendrad | Rendrad lliw ar ffrâm bren perfformiad uchel. | A+ |
| Waliau Allanol | Fel gweddau | Cerrig | Talcenni nodwedd ac atio | A+ |
| External Doors | Fel gweddau | uPVC | Perfformiad uchel | A |
| Ffenestri | Fel gweddau | uPVC | Perfformiad uchel | A |
| Toeau ar oleddf | Fel gweddau | Teils To | Ar geibrau cypledig | A |




### 6.04 DEUNYDDIAU CYNALIADWY

Bydd dulliau adeiladu sy'n amgylcheddol gyfrifol ac amrywiaeth o ddeunyddiau cynaliadwy, lleol, yn cael eu dewis lle bynnag y bo modd i greu dyluniad sy'n effeithlon o ran ynni ac yn ymwybodol o'r amgylchedd.

Bydd deunyddiau yn cael eu dewis o ffynonellau lleol lle bynnag y bo modd, i leihau'r defnydd o ynni trafnidiaeth a helpu i gynnal yr economi leol.
Mae'r deunyddiau wedi'u dewis ar sail eu cynaliadwyedd gan gyfeirio at Ganllaw Gwyrdd y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE).

### 6.05 DŴR

Er mwyn i'r tai ddefnyddio cyn lleied o ddŵr â phosibl, bydd effeithlonrwydd dŵr yn yr adeilad yn cael ei gynnal trwy osod toiledau fflysio deuol a chyfyngwyr llif ar dapiau.

Bydd y systemau draenio yn cael eu cysylltu â'r seilwaith presennol yn ddibynnol ar ddeialog â'r Awdurdod Lleol. Bydd casgenni dŵr yn cael eu darparu i gasglu dŵr glaw a lleihau'r defnydd o ddŵr yfed ar gyfer dyfrio planhigion yr ardd.

Bydd Systemau Draenio Cynaliadwy yn cael eu hystyried er mwyn osgoi gorlwytho'r seilwaith presennol yn ddibynnol ar ddeialog â'r Awdurdod Lleol.

### 6.06 RHEOLI GWASTRAFF

Bydd cynllun lleihau gwastraff safle yn cael ei lunio i ddilyn y 'Canllaw Arferion Da Lleihau Gwastraff Adeiladu.' Bydd y prif gontractwr yn aelod o'r Cynllun Adeiladwyr Ystyriol. Bydd cynllun rheoli ac ailgylchu gwastraff domestig ar ôl y gwaith adeiladu yn cael ei weithredu.

Bydd gan bob cegin finiau ailgylchu mewnol i annog trigolion i ailgylchu a lleihau eu gwastraff eu hunain. Bydd Cyngor Gwynedd yn ymdrin â sbwriel, gwastraff i'w ailgylchu a gwastraff o'r ardd.

### 6.07 CYDNERTHEDD HINSAWDD

Dros y 50 mlynedd nesaf mae disgwyl i'r hinsawdd newid. Er na allwn fod yn siŵr beth fydd y newidiadau hyn, mae tueddiadau cyffredinol wedi'u rhagweld. Mae disgwyl i'r tymheredd cymedrig byd-eang godi rhwng 1 a 3.5°C. Ym Mhrydain disgwylir i hyn olygu hafau cynhesach a gaeafau oerach. Mae disgwyl i ni hefyd gael mwy o dywydd eithafol, gyda mwy o risgiau o lifogydd a sychder.

Er mwyn sicrhau bod y datblygiad arfaethedig yn gallu ymdopi ag unrhyw newidiadau yn y dyfodol, mae nifer o nodweddion wedi'u cynnwys yn y dyluniad. Mae'r adeiladau wedi'u dylunio i fod mor effeithlon o ran ynni â phosibl er mwyn peidio â chyfrannu ymhellach at newid yn yr hinsawdd. Y nod yw diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu pobl i wneud hynny yn y dyfodol.

01
02
03

**Delwedd 01** - Bydd y cartrefi newydd yn gynaliadwy iawn a bydd y trigolion yn cael eu hannog i leihau'r defnydd o adnoddau a rheoli gwastraff.

**Delwedd 02** - Tabl yn dangos detholiad o wahanol ddeunyddiau a gynigir i'w defnyddio wrth adeiladu a'r nodau dymunol ar gyfer sgôr Canllaw Gwyrdd BRE.

**Delwedd 03** - Gwedd Arfaethedig y Stryd

## 7.00 MYNEDIAD

### 7.01 LLEOLIAD Y SAFLE

Ystyrir bod y safle arfaethedig mewn lleoliad cynaliadwy ar gyrion Chwilog gyda thrafnidiaeth gyhoeddus dda sy'n caniatáu i ddarpar drigolion gael mynediad hawdd at amwynderau yn yr ardal ehangach drwy drafnidiaeth gyhoeddus neu drwy ddefnyddio car preifat. Mae safle bws sydd wedi'i lleoli wrth ymyl y datblygiad arfaethedig ar y B4354 yn darparu gwasanaethau rheolaidd i Drefor a Phwllheli.
Bydd y trigolion yn byw o fewn pellter cerdded i'r pentref ac yn gyfagos i'r A497 sy'n cysylltu â'r A487 er mwyn cymudo i ardal ehangach.

Mae'r datblygiad mewn lleoliad gwych gyda golygfeydd godidog tuag at gefn gwlad agored ac mae'n daith fer mewn cerbyd i'r ganolfan hamdden leol a'r cyfleusterau cymunedol mewn trefi lleol fel Cricieth a Phwllheli gan ganiatáu i'r trigolion gael perthynas gadarnhaol â'r gymuned leol. Mae'r safle hefyd yn gyfagos i ardaloedd preswyl sefydledig ac yn agos at amwynderau lleol: mae'r ysgol gynradd leol (Ysgol Gynradd Chwilog), tafarn a neuadd goffa sy'n cynnal amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, chwaraeon, grwpiau cymunedol ac ati rhwng pump a deg munud ar droed a'r ysgol uwchradd leol lai na phum munud i ffwrdd ar droed. Mae'r siop groser agosaf a'r swyddfa bost lai na deg munud ar droed o'r safle.

### 7.02 DYLUNIO CYNHWYSOL

Un o brif amcanion y cynllun yw creu lle sy'n hawdd ei gyrraedd i bawb sy'n byw yn y datblygiad neu sy'n ymweld â'r cartrefi newydd.

Bydd yr holl arwynebau allanol ar y safle mor wastad â phosibl, a byddant yn ddilithro ac wedi'u gosod yn dda. Ni fydd unrhyw uniadau yn y palmant neu rhwng newidiadau deunydd yn fwy na 10mm o led ac ni fydd unrhyw orchuddion mynediad cyfleustodau a fydd wedi'u cynnwys yn y tirlunio caled yn ymwthio mwy na 5mm uwchben lefel y palmant.
Os bydd unrhyw newidiadau mewn uchder neu gyfeiriad, bydd yr arwynebau yn cael eu marcio'n glir gan newid gwead a lliw cyferbyniol a lle bo'n briodol fyny, cyrbau ar i fyny neu reiliau isel.


Bydd pob llwybr o leiaf 900mm o led ac yn barhaus heb unrhyw rwystrau. Rhagwelir y bydd llwybrau o amgylch yr adeiladau o leiaf 1000mm o led er mwyn rhoi mynediad i gadeiriau olwyn, a lle bo hynny'n bosibl byddant yn 1200mm o led. Bydd mynedfeydd adeiladau yn weladwy iawn a bydd llwybrau ramp at fynedfeydd o leiaf 1200mm o led a heb fod yn fwy na 1:12 o raddiant.
Bydd gan bob drws led clir effeithiol o 800mm o leiaf.


Mae'r ffordd arfaethedig wedi'i dylunio i safonau mabwysiadwy, gan gydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Priffyrdd ac mae'n gallu darparu mynediad i gerbydau brys. Mae gan y rhan fwyaf o eiddo le parcio oddi mewn i'r cwrtil neu fannau ger yr eiddo, yn agos at fynedfeydd fel eu bod yn hygyrch.



**Delwedd 01** - Golygfa 3D o'r datblygiad arfaethedig

01




## 8.00 SYMUD

### 8.01 INTEGREIDDIO / CYSYLLTIADAU

Mae pentref Chwilog mewn lleoliad da gyda'r B4354 yn rhedeg trwy'r canol, sef y brif ffordd. Mae'r safle hefyd wedi'i leoli'n agos at yr A487 sy'n rhedeg o Abergwaun i Fangor.

### 8.02 DULLIAU TRAFNIDIAETH

Mae'r safle yn hygyrch iawn trwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae arhosfan bws ger y safle, gyda bysiau rheolaidd yn rhedeg trwy gydol y dydd i Drefor a Phwllheli, sy'n darparu llwybrau a threnau pellach.

Mae ystod eang o wahanol ddulliau trafnidiaeth yn addas i drigolion ac ymwelwyr. Mae siop gigydd leol i lawr y ffordd. Mae amwynderau a siopau o fewn pellter gyrru a beicio. Mae'r safle o fewn pellter gyrru diogel a chyfleus i'r ganolfan hamdden ac adnoddau cymunedol eraill yng Nghricieth a Phwllheli.

Mae'r safle wedi'i leoli'n agos at Lwybr Beicio Cenedlaethol 8 a elwir yn Lôn Las Cymru, rhwng Caerdydd a Chaergybi (Ynys Môn) drwy Aberhonddu, Llanfair-ym-Muallt, Machynlleth, Porthmadog a Bangor.

### 8.03 GWASANAETHU

Mae gan bob eiddo ardaloedd dynodedig i storio biniau olwynion er mwyn caniatáu i'r cyngor lleol waredu sbwriel. Bydd cynllun rheoli ac ailgylchu gwastraff domestig ar ôl y gwaith adeiladu yn cael ei weithredu. Bydd gan bob cegin finiau ailgylchu mewnol i annog trigolion i ailgylchu a lleihau eu gwastraff eu hunain. Bydd Cyngor Gwynedd yn ymdrin â gwaredu gwastraff i'w ailgylchu a gwastraff o'r ardd.

### 8.04 PARCIO

Mae'r cynllun yn darparu lle parcio oddi ar y stryd i bob annedd. Yn yr achos hwn:

- 1 lle parcio fesul fflat 2 berson 1 ystafell wely
- 2 le parcio fesul byngalo 3 pherson 2 ystafell wely
- 2 le parcio fesul tŷ 4 person 2 ystafell wely
- 2 le parcio fesul tŷ 5 person 3 ystafell wely
- 2 le parcio fesul tŷ mynediad ochr 5 person 3 ystafell wely

Mae mynediad i'r mannau parcio yn uniongyrchol o'r briffordd fabwysiedig sy'n gwasanaethu'r safle. Mae gan bob eiddo a'u cymdogion olygon dros eu mannau parcio.

01

**Delwedd 01** - Map Llifogydd gydag ardal y safle wedi'i nodi

02

**Delwedd 02** - Map lleol sy'n dangos agosrwydd at amwynderau lleol a llwybrau trafnidiaeth.

## 9.00 DIOGELWCH CYMUNEDOL

### 9.01 CYMUNED

Bydd cyflwyno tai i'r safle yn helpu i ddarparu cartrefi fforddiadwy mawr eu hangen i drigolion lleol, gan annog pobl i aros yn y dref.

### 9.02 DIOGELU DRWY DDYLUNIO A GWYLIADWRIAETH

Mae diogelwch yn hollbwysig i'r datblygiad arfaethedig ac mae dulliau i atal troseddau wedi'u hystyried o gamau cychwynnol y dyluniad.

Bydd cais Diogelu drwy Ddylunio yn cael ei gyflwyno ar gyfer y safle gan dargedu'r Safon Aur. Mae'r datblygiad wedi'i ddylunio i ganiatáu rheolaeth gynaliadwy trwy sicrhau bod golygon dros y mannau a'u bod yn cael eu goruchwylio'n naturiol. Mae ffurf a chynllun y cartrefi yn helpu i ddarparu ymdeimlad o fod yn gaeedig.

### 9.03 TRINIAETHAU FFINIAU

Mae ystod o driniaethau ffiniau arfaethedig yn sicrhau bod y cynllun wedi'i amgáu a'i ddiogelu'n briodol, a'r cyfan i safonau Diogelu drwy Ddylunio. Bydd ffensys diogel i'r gerddi cefn a blaen yn cynnal preifatrwydd yr ardd ac yn creu llinell adeiladu gadarn. Trowch at Gynllun y Safle i weld triniaethau ffiniau.

## 10.0 YMGYNGHORI

### 10.01 YMGYNGHORI

Fel Cais Cynllunio Mawr, bydd ymgynghoriad ag ymgyngoreion statudol a thrigolion lleol yn cael ei gynnal drwy'r Cyfnod Ymgynghori Cyn Ymgeisio 28 diwrnod gorfodol. Ar ôl cwblhau'r cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio yn cael ei baratoi cyn y Cyflwyniad Cynllunio i grynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb iddynt.



**Delwedd 01** - Golygfa 3D o'r datblygiad arfaethedig

01